

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â mewnbynnu gwybodaeth i'r systemau TG a ddefnyddir yn eich sefydliad. Mae'n ymwneud â dilyn gweithdrefnau mewnbynnu a storio cywir yn ogystal â chynnal cyfrinachedd cwsmeriaid i fodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol ym maes Diogelu Data.

Gall systemau TG amrywio rhwng sefydliadau sydd â rhai systemau pwrpasol yn ogystal â systemau mwy generig ar draws sawl platfform.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi'r systemau TG a ddefnyddir yn eich sefydliad
2. cyrchu, mewnbynnu a thrin data ar y systemau TG sefydliadol hynny yr ydych wedi eich awdurdodi i'w defnyddio
3. dilyn gweithdrefnau sefydliadol sy'n cadarnhau cyfrinachedd a diogeledd y data y mae gennych fynediad ato
4. gweithredu o fewn terfynau eich awdurdod wrth ddefnyddio eich systemau TG sefydliadol
5. rhoi gwybod i'r cydweithiwr perthnasol am broblemau fel sydd wedi'i nodi yn eich gweithdrefnau TG sefydliadol
6. nodi ffynonellau cymorth i gynnal eich gwybodaeth a'ch cymhwysedd wrth ddefnyddio eich systemau TG sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y mathau o systemau TG a ddefnyddir yn eich sefydliad a'u prif nodweddion
2. y systemau TG sy'n benodol i'ch rôl a'ch sefydliad
3. eich gofynion sefydliadol ar gyfer agor a chau systemau TG
4. sut i fewnbynnu data a'i ddefnyddio
5. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd cwsmeriaid a'r ffyrdd o wneud hyn
6. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
7. eich rôl eich hun wrth gynnal cyfrinachedd a diogeledd data eich sefydliad
8. terfynau eich awdurdod eich hun i ddefnyddio systemau TG sefydliadol a defnyddio data sefydliadol
9. y rheoliadau iechyd a diogelwch berthnasol mewn perthynas â defnyddio offer sgrîn arddangos
10. sut i roi gwybod am broblemau TG yn eich sefydliad a sut i gael gafael ar gymorth
11. sut i roi gwybod am achosion o dorri cyfrinachedd
12. y ffynonellau cymorth i gynnal eich cymhwysedd eich hun i weithredu systemau TG sefydliadol

Cwmpas/Ystod

- Systemau Rheoli Eiddo
- Systemau Cyfrifeg
- System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid
- Systemau Marchnata
- Systemau Rheoli Adnoddau
- Systemau TG

Defnyddio systemau TG sefydliadol

Datblygwyd gan	Skills CFA
Dyddiad cymeradwyo	29 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	06 Ion 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH207
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfes/Set	Tai
Geiriau Allweddol	cwsmeriaid; cydweithwyr; gwybodaeth; TG; meddalwedd; cyfrinachedd data; cyfrinachedd cwsmeriaid; gweithgareddau hyrwyddo; arddangosfeydd; hysbysebu; marchnad; ar-lein; gwasanaethau; rhanddeiliaid